



CREATIVITY IN THE UK

**COFNODION CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD**

**DRWY GYNHADLEDD FIDEO DDYDD GWENER 10 RHAGFYR 2021,**

**09:30 – 13:00**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")

(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU")

**Presennol:**

Y Fonesig Vikki Heywood DBE	Cadeirydd y Bwrdd, Anweithredol
Amali de Alwis MBE	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Faraz Tasmin	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Hayaatun Sillem CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Rob Smith MBE	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Yr Athro Andrew Thompson CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Roger Mosey	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Roger Lewis	Cyfarwyddwr Anweithredol, sy'n cynrychioli Cymru
Liam Hannaway	Cyfarwyddwr Anweithredol, sy'n cynrychioli Gogledd Iwerddon
Dr. Bridget McConnell CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli'r Alban

**Arsylwyr yn bresennol:**

Emma Squire CBE	Llywodraeth y DU, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Richard Walsh	Llywodraeth yr Alban
Gerwyn Evans	Llywodraeth Cymru

**Yn bresennol:**

Martin Green CBE	Prif Swyddog Creadigol
Phil Batty	Cyfarwyddwr Gweithredol
Bea Hendry	Pennaeth Rhaglenni
Caroline McGrory	Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni
David Grady	Prif Swyddog Ariannol
Lucy Bailey	Uwch Gwnsler Cyfreithiol
Ben McKnight	Cyfarwyddwr Cyfathrebu (eitemau 4, 9a-9b)
Sam Skillings	Pennaeth Cynulleidfaoedd a Marchnata (eitemau 4, 9a-9b)
Ian Reid	Prif Weithredwr / Swyddog Cyfrifyddu (eitemau 6-7)
Sam Hunt	Cyfarwyddwr Rhaglen (eitemau 9a-9b)
Hilary O'Shaughnessy	Cyfarwyddwr Comisiynu (eitemau 9a-9b)
Julie Flavell	Uwch Gynhyrchydd (eitemau 9a-9b)
Morgan Summers Smith	Rheolwr Ymgyrchoedd Strategol (eitemau 9a-9b)
Adam Richards	Cyfarwyddwr PWC, Arweinydd Archwilio Mewnol UNBOXED (eitemau 9a-9b)
Laura O'Flynn	Rheolwr Llywodraethu (Cymryd Nodiadau)
Tace Jones	Cynorthwy-ydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

**Yn bresennol o'r Timau**

**Creadigol sy'n Cyflwyno:**

Lysander Ashton	59 Productions, Cyfarwyddwr Creadigol (eitem 9a)
Rebecca Collis	59 Productions, Cynhyrchydd Gweithredol (eitem 9a)
Paul Moss	59 Productions, Cynhyrchydd Ymgysylltu (eitem 9a)
Bella Cox	59 Productions, Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol (eitem 9a)
Judith Palmer	



**CREATIVITY IN THE UK**

Poetry Society, Cyfarwyddwr (eitem 9a)

Poetry Society, Swyddog Addysg (eitem 9a)

Stemettes, Cyfarwyddwr (eitem 9a)

Stemettes, Rheolwr Allgymorth (eitem 9a)

Natasha Ryan  
Anne-Marie Imafidon  
Kat Clark

## 1a Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol a rhoddodd groeso cynnes i'r Athro Andrew Thompson a Laura O'Flynn i'w cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Priya Lakhani (Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n cynrychioli Lloegr) a Dr Maggie Aderin-Pocock (Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol), ynghyd â Louise Hyland, Arsylwr Gweithredol Gogledd Iwerddon.

Wrth adolygu'r agenda, rhoddodd y Cadeirydd arweiniad ar eitemau i'w trafod a'u penderfynu.

## 1b Cymeradwyo Cofnodion a Materion sy'n Codi

Rhoddodd y Cadeirydd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi a nid oedd camau heb eu cymryd. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2021 fel cofnod cywir a byddent yn cael eu llofnodi'n unol â hynny gan y Cadeirydd yn electronig a chyhoeddwyd copi ar y wefan.

## 1c Penodiad yr Athro Andrew Thompson a datgan buddiannau

Atgoffodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwyr fod e-bost wedi'i ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd ar 24 Tachwedd 2021 yn rhoi manylion am yr Athro Andrew Thompson ac yn gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw. Ymatebodd Cyfarwyddwyr y Bwrdd gyda chefnogaeth lawn a dim gwrthwynebiadau. Nododd y Cadeirydd fod Andrew wedi cydsynio i'r penodiad priodol i Fwrdd y Cwmni a chadarnhaodd Andrew ei fod wedi mynegi ei ddatganiad o fuddiannau.

### **PENDERFYNWYD BOD Y BWRDD YN**

#### **Cymeradwyo penodiad yr Athro Andrew Thompson fel Cyfarwyddwr annibynnol newydd i'r Cwmni ar unwaith.**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Bwrdd, o ganlyniad i'r penodiad, wedi aildddechrau cyfanswm o 12 Cyfarwyddwr.

**CAM GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Cwmni i ffeilio yn Nhŷ'r Cwmniâu a diweddariadau i'r cofrestrau statudol o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod hwn.**

Datganodd Roger Lewis wrthdaro buddiannau. Dywedodd Roger ei fod bellach yn Aelod o'r Pwyllgor ar gyfer Cystadleuaeth Anrhydedd Dinesig y Jiwbilî Platinwm. Dim gwrthdaro ar agenda'r cyfarfod hwn, ond gallai fod yn bosibl pan fydd trafodaethau ar leoliadau'r DU mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cydnabu'r Cadeirydd y gwrthdaro ar gyfer agendâu'r dyfodol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwyr wirio eu gwybodaeth a gedwir ar ffeil a sicrhau bod y Rheolwr Llywodraethu yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

**CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llywodraethu i ddiweddarau'r gwaith o Reoli Gwrthdaro Buddiannau a Chofrestr Buddiannau'r Aelodau ac i'w ddsbarthu i'r Bwrdd ar 10 Rhagfyr 2021 ar gyfer ei adolygiad, ac yn dilyn unrhyw ddiweddariadau sydd ar gael ar y Cynllun Cyhoeddi.**

**CAM GWEITHREDU: Y Bwrdd i adolygu'r gwaith o reoli gwrthdaro buddiannau a chofrestru Buddiannau'r Aelodau a**



CREATIVITY IN THE UK  
rhoi gwybod i'r Rheolwr Llywodraethu am unrhyw  
newidiadau erbyn 13 Rhagfyr 2021.

## 2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Weithrediaeth

Rhoddodd y Prif Swyddog Creadigol ddiweddiariad llafar ar benawdau allweddol y gweithgarwch. Rhoddodd y Prif Swyddog Creadigol sicrwydd bod y canolbwynt presennol ar weithrediadau a chynhyrchu, gan gofio'r heriau presennol yn y farchnad lafur a chyda risg y gadwyn gyflenwi. Caiff y rhain eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod eithriadol y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio ym mis Ionawr 2022.

Hysbysodd y Prif Swyddog Creadigol fod y diwygiadau terfynol yn cael eu hadlewyrchu yn amserlen digwyddiadau'r rhaglen a bydd drafft yn cael ei rannu â'r Bwrdd. Diolchodd y Prif Swyddog Creadigol hefyd i'r Bwrdd am eu presenoldeb yn y trafodaethau dysgu a chyfranogi ac mae'r tîm yn sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglen a bod adnoddau ar gael. Cafwyd trafodaeth ynghylch ymgysylltu â chynulleidfaoedd a'r arlwy digidol posibl ar gyfer ysgolion a theuluoedd. Nodwyd bod ysgolion o dan bwysau cynyddol yn sgil Covid ac mae angen i gynllunio gweithredol ar gyfer ymgysylltu adlewyrchu hyn. Cynhelir cyfarfodydd rheoli chwarterol gyda thimau'r prosiect yn ystod mis Rhagfyr 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau ynglŷn â'r diweddiariad. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut i sicrhau effaith gynaliadwy ar y rhaglen a gofynnodd y Bwrdd i'r Prif Swyddog Creadigol roi cyfeiriad ar sut y gellir eu defnyddio i gynorthwyo. Cafwyd trafodaeth ynghylch y cynlluniau ar gyfer covid-19 mewn perthynas â digwyddiadau byw'r prosiect. Tynnodd y Prif Swyddog Creadigol sylw at amseriad penderfyniadau y bydd angen iddynt addasu ar fyr rybudd i ganllawiau sy'n newid. Cynlluniwch i ystyried unrhyw oblygiadau o ran cost yn y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio. Mae'n ofynnol i gomisiynau reoli unrhyw oblygiadau Covid rhagweladwy o fewn cyllidebau'r prosiect a naill ai tynnu i lawr o'r prosiect wrth gefn neu leihau cwmpas y rhaglen. Adlewyrchir y dull hwn yn y cytundebau comisiynu. Nododd y Bwrdd fod y rhaglen yn cael ei hariannu gan y pedair Llywodraeth, ac efallai y bydd yn ofynnol ymgysylltu â'r cyllidwyr hynny mewn deialog pe bai tirwedd Covid yn newid yn sylweddol.

**CAM GWEITHREDU:** Prif Swyddog Creadigol i fynd ar drywydd hyn gydag Andrew i gael gwybod am brofiad diweddar ar sut i gyflawni canlyniadau cyhoeddus mewn pandemig.

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwerthusiad

Lluniodd Pennaeth y Rhaglen ei hadroddiad (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws presennol gwerthusiad UNBOXED ac a oedd yn cynnwys penodi cyflenwyr gwerthuso yn ddiweddar i oruchwylio, rheoli prosiectau a chynnal y cynllun ymchwil cyffredinol ar gyfer UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU. Byddai'r cyflenwr gwerthuso yn gweithio'n uniongyrchol gyda phob un o'r Timau Creadigol i ddyfeisio cynlluniau gwerthuso unigol ar lefel prosiect ar gyfer pob un o 10 comisiwn Festival, yn ogystal â datblygu un Cynllun Gwerthuso a Monitro trosfwaol ar gyfer UNBOXED yn ei gyfanrwydd.

Mae Gweithgor Monitro a Gwerthuso UNBOXED yn cefnogi'r gwaith, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob corff cyflawni strategol a chyllidwr a cheir cyfarfodydd rheolaidd gyda Grŵp Cynghori Arbenigol. Mae ystyriaeth yn cael ei hystyried sut i fanteisio i'r



CREATIVITY IN THE UK

eithaf ar arbenigedd y grŵp cynghori arbenigol a'i ddefnyddio.

Yn ogystal, dywedodd yr adroddiad wrth y Bwrdd y byddai fframwaith o wyth ymchwilydd cynradd arbenigol (yn cynnwys un ar ddeg o asiantaethau gwerthuso unigol) yn casglu data meintiol ac ansoddol sylfaenol.

Roedd y Bwrdd yn gefnogol i'r papur ac yn teimlo ei fod yn ddarn gwych o waith fel rhan o'r etifeddiaeth. Ar ryw adeg, awgrym fyddai cofnodi'r broses yn ddogfen ddigidol y gall sefydliadau eraill ei defnyddio a dysgu ohoni.

Cafwyd trafodaeth am natur academaidd rhai adroddiadau gwerthuso, a chafwyd cais i sicrhau bod gan y gweithgor yr un pwysigrwydd i'r grŵp cynghori er mwyn sicrhau bod y ddogfen derfynol yn dangos gwreiddioldeb ac ehangder UNBOXED. Cynigiodd y Bwrdd eu cefnogaeth i helpu i wneud argymhellion a chyflwyniadau, os oedd angen, yn enwedig mewn STEM.

**CAM GWEITHREDU:** Pennaeth y Rhaglen i gyfarfod â Hayaatun ac Amali i ystyried lleisiau blaenllaw mewn STEM i gynorthwyo'r gwaith gwerthuso .

**CAM GWEITHREDU:** Pennaeth y Rhaglen i gyfarfod ag Andrew i gael cyngor yn y maes hwn a pharhau i gefnogi all-lein gyda'r Swyddfa Weithredol .

#### 4. Cynllun Marchnata a Chyfathrebu – cam 2

Ymunodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Phennaeth Cynulleidfaoedd / Marchnata â'r cyfarfod i gyflwyno'r Cynllun Marchnata a Chyfathrebu terfynol – Cam 2 drwy gyfres o sleidiau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu fod y cyflwyniad wedi'i gyflwyno i'r 10 tîm a gomisiynwyd y diwrnod cynt a'u bod wedi derbyn adborth da. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai'r tîm yn cynnwys adborth o'r sesiwn honno ac unrhyw sylwadau pellach y byddent yn eu gwneud o'r cyfarfod hwn i gwblhau'r strategaeth sy'n sail i'r cyflwyniad a'i rhannu gyda'r Bwrdd yr wythnos nesaf.

Eglurodd y Pennaeth Cynulleidfaoedd / Marchnata swyddogaeth a chyrrhaeddiad cyfryngau a dalwyd amdanynt. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys manylion am gynllunio cynnwys, amcanion cyfryngau cymdeithasol, amcanion y wefan ac amcanion cysylltiadau cyhoeddus ochr yn ochr â'r dull o ymdrin â phob un o'r rhain. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai'r wefan yn cael ei huwchraddio ym mis Chwefror.

Cafwyd trafodaethau ynghylch:

- y cyfeiriad at gyrhaeddiad y rhaglen. Nododd y Bwrdd y gallai fod ardaloedd daearyddol ledled y DU heb weithgarwch byw a hoffai'r Bwrdd ganolbwyntio ar y map daearyddol ym mis Ionawr a chadarnhau pa ymgysylltiad ychwanegol ac ystyrion a gyflawnir ledled y DU.
- ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyfryngau cyflogedig .
- asedau cyfryngau cymdeithasol i'w darparu i alluogi'r Bwrdd i bostio ar eu llwyfannau. Mae'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu wedi ymrwymo i ddarparu asedau.
- y dull o ymdrin â strategaethau lleol a fydd yn cael eu cyflawni drwy



CREATIVITY IN THE UK

Gynlluniau Marchnata a Chyfathrebu pob prosiect.

- defnyddio brand UNBOXED i sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod eu bod wedi cael profiad ystyrllon o UNBOXED.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r cadeirydd i'r pwyntiau a drafodwyd gael eu datblygu a'u hadlewyrchu yn y strategaeth Marcomms sylfaenol.

**CAM GWEITHREDU:** Y Pennaeth Cynulleidfaoedd / Marchnata i anfon y cyflwyniad at y Rheolwr Llywodraethu i'w lanlwytho i VBR a dosbarthu'r Cynllun Marchnata a Chyfathrebu – Cam 2 sy'n sail i hyn.

**CAM GWEITHREDU:** Y tîm digidol i ddarparu asedau cyfryngau cymdeithasol i'r Bwrdd eu defnyddio a'u postio.

**CAM GWEITHREDU:** Y Rheolwr Llywodraethu i gynnwys y map daearyddol ar agenda mis Ionawr a'r Prif Swyddog Creadigol i sicrhau bod hyn yn cael ei ddsbarthu i'r Bwrdd cyn y cyfarfod gyda'r pecyn.

## 5. Noson Agoriadol

Cafwyd trafodaeth ynghylch y digwyddiad byw cyntaf ar gyfer y rhaglen ac unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill ledled y DU sy'n digwydd ar y dyddiad hwnnw neu tua'r dyddiad hwnnw.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol y bydd y Bwrdd yn cael dyddiadau allweddol fel y gallant roi yn eu dyddiaduron.

## 6. Adroddiad y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio i'r Bwrdd

Ymunodd Prif Weithredwr Grŵp OC a'r Swyddog Cyfrifyddu â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a'r wybodaeth ddiweddaraf ariannol cyn gadael y cyfarfod.

Lluniodd Cadeirydd Risg a Sicrwydd Archwilio yr adroddiad (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) a oedd yn darparu canlyniadau o gyfarfod Risg a Sicrwydd Archwilio ar 22 Tachwedd 2021. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol a'r Canfyddiadau, yr Adroddiad Perfformiad Ariannol, y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb gydol oes a'r Wybodaeth Rheoli Risg. Roedd y crynodeb archwilio mewnol yn gadarnhaol iawn. Bydd y perfformiad ariannol yn darparu rhagolygon manylach o fis i fis a chydbwysedd ar gronfa wrth gefn. Cynhaliwyd adolygiad cadarn o'r Gyllideb Gydol Oes 2.0 a fydd yn cael ei gynnwys yn eitem 7 ar yr agenda. Cymeradwyodd y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio y gymeradwyaeth i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i edrych at y gorwel ac mae wedi trefnu Cyfarfod Eithriadol ar gyfer mis Ionawr i edrych yn fanylach ar yr heriau sy'n wynebu'r gadwyn gyflenwi, costau materol, a'r farchnad lafur. Mae'r proffil risg wrth gefn yn parhau i fod yn unol ag adroddiadau blaenorol a wnaed i'r Bwrdd, ac er nad oes unrhyw faterion i'w hystyried ar unwaith heddiw, dylai'r Bwrdd fod yn ymwybodol, wrth i Brosiectau fynd yn fyw, y bydd y materion sy'n ymwneud â "Risgiau Wrth Gefn a Chyfleoedd" yn crisialu.



CREATIVITY IN THE UK

Adolygodd a thrafododd y Bwrdd y diweddariad lechyd a Diogelwch rheolaidd .

## 7. Diweddariad Ariannol (gan gynnwys Cymeradwyo'r Gyllideb Gydol Oes)

Lluniodd Prif Swyddog Ariannol Grŵp OC yr adroddiad (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) a oedd yn ymdrin â Materion Llywodraethu Ariannol, 2021/22 Gwariant hyd yma, diweddariad y Gyllideb Gydol Oes ac Incwm Grant Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio y Gyllideb Flynyddol, ar 22 Tachwedd a adlewyrchir yn y Gyllideb Gydol Oes 2.0 a gymeradwywyd i'w chymeradwyo i'r Bwrdd. Adolygodd y Bwrdd y sefyllfa o ran risg ariannol, gan gynnwys y proffil wrth gefn.

### **PENDERFYNWYD BOD Y BWRDD YN**

**Cymeradwyo'r Gyllideb Gydol Oes 2.0, yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol gyda'r Risg a Sicrwydd Archwilio yn cadw awdurdod dirprwyedig ar gyfer rheoli'r Gyllideb Flynyddol.**

Dywedodd Cadeirydd Risg a Sicrwydd Archwilio fod Richard Pomfret, Uwch Reolwr Cyllid, yn gadael y mis hwn, ac wedi cael ei ddisodli gan Gabriela Butler. Diolchodd y Pwyllgor a'r Bwrdd i Richard am ei wasanaeth a'i gyfraniad a gofynnodd am hyn yn y cofnodion.

Ymddiheurodd Gerwyn Evans a gadawodd y cyfarfod.

## 8. Cyfrinachol – Adborth Grŵp Adolygu Adnoddau Dynol a'r Gweithlu

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Grŵp Adolygu a dywedodd fod y grŵp wedi cymeradwyo Polisi Diswyddo a pholisi Sicrwydd Bywyd. Argymhellodd y Cadeirydd y rhain i'w cymeradwyo gan y Bwrdd, a chadarnhawyd hynny. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar y VBR i gyfeirio atynt ymhellach gan y Bwrdd.

### 9a. About Us: At Wraidd y Mater

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r tîm sy'n gweithio ar y prosiect About Us a oedd yn cynnwys 59 Productions, The Poetry Society, Stemettes a chydweithwyr eraill o UNBOXED. Croesawodd y Cadeirydd hefyd Adam Richards o PWC, y Pwyllgor Arweiniol Archwilio Mewnol a ymunodd i arsylwi ar yr eitem hon.

Gyda'i gilydd, cyflwynodd y tîm y dull o ymdrin â'r prosiect a sut yr oedd yn mynd rhagddo, gan gynnwys manylion am y canlynol:

- safleoedd digwyddiadau byw
- ymgysylltu lleol
- dysgu a chyfranogi, yn enwedig y dull o ymgysylltu ag ysgolion a gweithdai perthnasol
- ymgyrch farchnata wedi'i chynllunio

Dywedodd y tîm wrth y Bwrdd fod y cymhlethdod yn cyd-fynd ag UNBOXED ynghylch sut i ymhelaethu ar ymgysylltu â'r rhaglen ehangach a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod eu bod wedi mynychu digwyddiad UNBOXED.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu presenoldeb. Roedd cyfarfodydd y Bwrdd fel arfer yn canolbwyntio ar faterion strategol felly croesawodd y cyfle i glywed y



CREATIVITY IN THE UK

syniadau creadigol yn dod yn fyw a chael mwy o ddealltwriaeth o brofiad gwych a fydd yn dathlu creadigrwydd o fewn pob un ohonom.

Agorodd y Cadeirydd am drafodaeth. Cafwyd trafodaeth ynghylch cydweithio ar draws tîm er mwyn sicrhau'r manteisio i'r eithaf. Rhoddodd y Prif Swyddog Creadigol sicrwydd ar y pwynt hwn mai UNBOXED sy'n gyfrifol am y cysylltiadau rhwng timau.

Eglurodd y tîm y berthynas waith ag UNBOXED, ac yn gyffredinol, roedd y tîm yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gyda'i gilydd. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr heriau o fod y digwyddiad byw cyntaf. Rhoddodd y Bwrdd sicrwydd y byddent yn cefnogi hyn, ac yn rhannu/gwthio ar ôl iddynt dderbyn y cynnwys i wneud hynny. Atgoffodd y Bwrdd y tîm hefyd fod angen ystyried etifeddiaeth eu gwaith a rhoddwyd sicrwydd bod sianeli wedi'u sefydlu i hwyluso hyn, a bod y gyllideb yn cael ei dal yn ôl i ddefnyddio cyfleoedd sy'n codi yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth am y lleoliadau a'r dyddiadau. Cydnabuwyd bod cyfleoedd yn cael eu gyrru gan y tywyllwch gorau posibl. Eglurodd y Prif Swyddog Creadigol ei bod yn anodd trawsnewid canol pob tref yn ofod eithriadol ac addasu'r sioe i bob lleoliad. Rhoddodd yr Uwch Gynhyrchydd wybodaeth bellach hefyd i dawelu meddyliau bod mesurau Covid wedi'u hystyried.

Gofynnodd y Bwrdd i'r cyflwyniad gael ei rannu ar ôl y cyfarfod a gofynnodd y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r cyflwyniad ymlaen llaw i sicrhau'r drafodaeth a'r rhyngweithio mwyaf posibl. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am eu hamser a gadawodd 59 Productions, Poetry Society a Stemettes y cyfarfod.

**CAM GWEITHREDU: Yr Uwch Gynhyrchydd i rannu'r cyflwyniad gyda'r Rheolwr Llywodraethu i'w uwchlwytho i VBR.**

Ymddiheurodd Roger Mosey ac Andrew Thompson a gadawodd y ddau y cyfarfod.

## **9b. Gweithrediadau Mewnol a Pharatodau Canolog: About Us**

Trosglwyddodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol a'r Uwch Gynhyrchydd i gyflwyno risgiau a sefyllfa ariannol About Us..

Roedd y Bwrdd yn falch o glywed pa mor gefnogol oedd tîm y prosiect. Gofynnwyd i'r Marcomms gyd-fynd â'r ymdrechion i'w cefnogi ymhellach gyda hyrwyddo. Anogodd y Bwrdd y tîm i'w defnyddio ar gyfer cysylltiadau a/neu i hyrwyddo. Gofynnodd y Bwrdd am ddealltwriaeth bellach o'r gweithgarwch nad yw'n fyw a sut i wneud y mwyaf o'r diddordeb a'r ymgysylltu.

**CAM GWEITHREDU: Yr Uwch Gynhyrchydd i ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd am y gweithgaredd nad yw'n bersonol ar gyfer About Us.**

Gadawodd cydweithwyr UNBOXED ar y prosiect About Us y cyfarfod.

## **10. Pob busnes arall**

### **Arolwg Archwilio Sgiliau, Amrywiaeth ac Effeithiolrwydd Byrddau**

Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd i gwblhau arolwg Archwilio Sgiliau, Amrywiaeth ac





CREATIVITY IN THE UK

Effeithiolrwydd y Byrddau fel blaenoriaeth erbyn dydd Llun 13 Rhagfyr.

Ar y mater hwn, mae'r Cynorthwy-ydd Gweithredol wedi dosbarthu arolwg i nodi dyddiad ym mis Ionawr ar gyfer y sesiwn gymedrol annibynnol, felly gofynnodd y Cadeirydd i hyn gael ei gwblhau hefyd.

### **Cyfarfodydd Bwrdd i Ddod**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn gyfarfod eithriadol ar 28 Ionawr 2022 i ganolbwyntio ar y risgiau allweddol a'r risgiau allweddol nesaf. Cyfarfod llawn nesaf y Bwrdd yn awr fyddai 2 Mawrth 2022 yn Paisley i gyd-fynd â lansio UNBOXED a'r comisiwn cyntaf, About Us ar 1 Mawrth 2022.

Hysbyswyd y Bwrdd y byddai cyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill yn newid i 21 Ebrill (pm) i gyd-fynd â lansiad Our Place in Space y diwrnod canlynol. A'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb eraill sydd wedi'u cynllunio gynlluniwyd yw Mehefin – Cymru, Tachwedd – Birmingham ac o bosibl eto yn Birmingham ar gyfer y cyfarfod ym mis Rhagfyr yn dibynnu ar y dyddiad terfynol ym mis Tachwedd, sy'n aros am y cymeradwyo ariannol, felly gofynnodd y Cadeirydd i ddyddiaduron ddarparu ar gyfer hyn.

### **Treuliau'r Bwrdd**

Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno unrhyw dreuliau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Gofynnodd y Bwrdd i'r Rheolwr Llywodraethu ail-anfon e-bost yr arolwg ochr yn ochr â'r dogfennau gwrthdaro buddiannau.

**CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llywodraethu i ail-anfon e-bost yr arolwg a'r Bwrdd i flaenoriaethu cwblhau erbyn 13 Rhagfyr 2021.**

### **Myfyrdodau a sylwadau i gloi**

Teimlai'r Cadeirydd fod yr amserlenni ar gyfer yr agenda wedi bod yn rhy uchelgeisiol, a byddai angen ystyried nifer yr eitemau ar yr agenda a'r gorchymyn, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol gyda adolygiadau manwl a gofynnodd i wybodaeth gael ei dosbarthu ymlaen llaw i ddefnyddio'r amser ar yr agenda ar gyfer trafod a rhyngweithio fel y bwriadwyd. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

### **Diwedd y cyfarfod**

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00. Cadarnhawyd bod dyddiad y cyfarfod nesaf, a fyddai yn un eithriadol, ar 28 Ionawr 2022, yn rhithiol.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:  
Cyfarwyddwyr y Bwrdd  
Arsylwyr y Bwrdd  
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd: 19 Ionawr 2022  
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr: 16 Chwefror 2022  
Dyddiad dosbarthu: 24 Chwefror 2022